Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd eich plentyn yn cael ei annog i ddysgu a defnyddio ystod ehangach o eirfa a chystrawennau i greu effaith fwriadol yn eu gwaith ysgrifenedig a llafar. Bydd sesiynau drilio rheolaidd, gwaith grŵp a phartner, drama a thrafodaethau dosbarth yn helpu i fagu hyder ac ymwybyddiaeth o gynulleidfa. Bydd gweithgareddau darllen yn canolbwyntio ar ddatblygu rhuglder, dealltwriaeth, uwch sgiliau darllen a datblygu ymwybyddiaeth o dechnegau llenyddol. Bydd eich plentyn yn parhau i fod yn fwy ymwybodol o wahanol ieithoedd - ffocws penodol ar Ffrangeg. Yn Saesneg byddwn yn parhau i ddatblygu ffoneg dwys, ond hefyd ddefnyddio genrau amrywiol wrth iddynt ddatblygu a meistroli'r ddwy iaith. Bydd ffocws ar batrymau sillafu mwy cymhleth, atalnodi cyson a dealltwriaeth o dechnegau ysgrifennu. *Gweler y Fframwaith Llythrennedd ar ein gwefan am ragor o wybodaeth*.

## Mathemateg a Rhifedd

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae'r sgiliau yma yn cael eu ymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at ddulliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy'n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth a wyddant neu beth helpodd. *Am wybodaeth pellach, gwelwch y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysaol.*

## Thema

Ein thema'r tymor yma yw 'Newid'.Byddwn yn trafod ac yn astudio sut mae defnyddiau yn medru newid cyflwr trwy ystod o arsylwadau ac arbrofion. Byddwn yn trefnu a didoli defnyddiau mewn i solidau, hylifau a nwyon ac yn deall sut mae gwahanol brosesau yn medru newid gwahanol ddefnyddiau. Yn ogystal â threfnu defnyddiau mewn amryw o ffyrdd, byddwn yn edrych ar sut mae'r ardal leol a Chymru wedi newid dros gyfnodau o amser. Byddwn yn gwneud hwn wrth astudio gwahanol gyfnodau hanes yn gronolegol a chymharu ein bywydau heddiw gyda bywydau pobl yn y gorffennol. Byddwn yn astudio sut mae gwahanol grefyddau yn dathlu a sut maen nhw yn dathlu yn eu haddoldai. Byddwn yn creu cerfluniau gan ddefnyddio ystod o ddefnyddiau a thechnegau.



## Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, byddwn yn datblygu ein sgiliau pêl er mwyn gallu chwarae a dilyn rheolau pêl-rwyd. Wrth i ni wneud hyn byddwn yn ystyried yr effaith mae ymarfer corff yn cael ar ein cyrff a'n iechyd meddwl.
Themau Jig-so'r tymor yma yw: 'Dyheadau a Goliau' a 'Fy Iechyd'.

**Dosbarth: Seithennyn**

**Blwyddyn 3 a 4**

## Pethau i'w Cofio

-Llyfrau darllen adref Dydd Gwener ac yn ôl ar Dddyd Llun gyda chofnod.
-Cit ymarfer corff ar **Ddydd Mawrth**
-Coedlan- **Dydd Llun - 15/1/24**, 29/1/24, 26/2/24, 11/3/24.
-Defnyddio Trydar (X) er mwyn rhannu gwaith

